**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 17 Tachwedd 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | L S Gibbard | H J Gwilliam |
| D H Hopkins | A S Lewis | A Pugh |
| R V Smith | A H Stevens | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies a/ac E J King

---

**79. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 84 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd H J Gwilliam ac A Pugh gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 84 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol" a gadawsant y cyfarfod cyn ei ystyried.

3) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, D H Hopkins, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol â Chofnod 88 “Gwaredu Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol”.

4) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol personol a rhagfarnol â Chofnod 91 “Cymorth Ariannol i Bartneriathau Hamdden 2022/2023 – Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe” a gadawodd y cyfarfod cym ei ystyried.

**80. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022.

**81. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**a) Y Gyllideb**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y Gyllideb a oedd wedi’i threfnu ar gyfer yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Amlinellodd y sefyllfa ariannol fregus sy'n wynebu Llywodraeth Leol.

**82. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**83. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**84. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | Lisa Boat |
| 2) | Ysgol Gynradd Cwmglas | Jonathan Hughes |
| 3) | Ysgol Gynradd Danygraig | Y Cyng. Hayley Gwilliam |
| 4) | Ysgol Gynradd y Glais | Y Cyng. Alyson Pugh<br>David Tyler |
| 5) | Ysgol Gynradd Gorseinon | Caroline Pierlejewska |
| 6) | Ysgol Gynradd Tre-gŵyr | Lyndon Mably<br>Y Cyng. Susan Jones |
| 7) | Ysgol Gynradd Llangyfelach | Keith Brown |
| 8) | Ysgol Gynradd Parkland | Stephen Gallagher |
| 9) | Ysgol Gynradd Pentrechwyth | John Winchester |

| | | |
|---|---|---|
| 10) | Ysgol Gynradd Pontlliw | Y Cynghorydd Victoria Holland |
| 11) | Ysgol Gynradd Gatholig San Joseph (Clydach) | Lucy Thomas |
| 12) | Ysgol Gynradd Heol y Teras | Y Cyng. Fiona Gordon |
| 13) | Ysgol Gynradd y Trallwn | Y Cyng. Penny Matthews |
| 14) | Ysgol Gyfun yr Esgob Gore | Julia Pridmore |
| 15) | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed | Theresa Ogbekhiulu |
| 16) | Ysgol Gyfun Treforys | Alison Harding |
| 17) | Ysgol Gyfun Pentrehafod | Y Cyng. Chris Holley |
| 18) | Ysgol Gynradd Seaview | Craig Wade |
| 19) | Ysgol Gyfun Gŵyr | Dr Adrian Morgan |
| 20) | Pwyllgor Rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) | Debra Treharne |

## 85. Strategaeth Digidol 2022-26.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Digidol newydd 2022-2027.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Digidol ddrafft 2022-2027 sydd ynghlwm wrth Atodiad A yr adroddiad ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

2) Caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn y broses ymgynghori.

## 86. Adolygiad o Strategaeth Trawsnewid a Nodau Cyngor Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn adolygu Strategaeth Trawsnewid a nodau'r cyngor ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Gweledigaeth a Nodau Trawsnewid y cyngor ar gyfer 2022-2027.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r weledigaeth drawsnewid, y nodau a'r trefniadau llywodraethu fel y nodir yn Adrannau 4 a 5 o'r adroddiad.

2) Cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet ym mis Mawrth 2023 gan ofyn am gefnogaeth ar gyfer Cynllun Trawsnewid manwl ar gyfer 2023-2027.

## 87. Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol y cyngor ar gyfer 2021/22 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynnwys Adolygiad Cydraddoldeb 2021/2022 yn i'w gyhoeddi.

## 88. Gwaredu Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyo mewn egwyddor drosglwyddo asedau cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, gan gynnwys unrhyw dir hamdden ac adeiladau cysylltiedig, i sefydliadau cymunedol, clybiau a chymdeithasau yn unol â Pholisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cyngor, am bris llai na'r gorau er mwyn galluogi buddsoddiad, gwelliant a chynaliadwyedd tymor hir.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo mewn egwyddor y trosglwyddiadau arfaethedig o'r lleiniau a restrir yn Adran 2.4 (Tabl 1) yr adroddiad.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd gymeradwyo prydlesi o hyd at uchafswm o 125 mlynedd mewn perthynas â'r lleiniau a restrir yn Adran 2.4 (Tabl 1) yr adroddiad i'r lesddalwyr arfaethedig am y rhesymau arfaethedig fel y nodir yn y tabl, ar yr amod bod Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo wedi ystyried pob un o'r trosglwyddiadau arfaethedig dan Reolau Gweithdrefnau Gwerthu a Phrynu Tir y cyngor a'i fod yn argymell cymeradwyo pob trosglwyddiad. Cymeradwyo'r prydlesi am bris llai na'r gorau yn unol â Pholisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cyngor

3) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo drafod a phenderfynu ar delerau'r brydles arfaethedig (ac unrhyw Weithredoedd Amrywio angenrheidiol wedi hynny) a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol gwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol ar ran y cyngor.

## 89. Cronfa Adfywio Cymunedol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniad llwyddiannus cais am grant gan y cyngor i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU am y swm o £2,471,029 mewn grant refeniw ar gyfer y cyfnod mis Tachwedd 2021 i Ragfyr 2022. I gydymffurfio â Rheol Rhif 5 y Weithdrefn Ariannol Rhif (Rheoli Cyllidebol) - i fonitro a rheoli cyllidebau refeniw yn effeithiol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cais am grant fel y nodwyd ynghyd â'r goblygiadau ariannol sydd wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Lywodraeth y DU. Cymeradwyo derbyn Llythyr Dyfarnu Grant y Gronfa Adfywio Cymunedol sef grant refeniw ar gyfer Tachwedd 2021 – Rhagfyr 2022 am £2,471,029.

## 90. Cymorth Ariannol i Bartneriaethau Hamdden 22/23 - Freedom Leisure.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y lefelau cymorth ariannol yr oedd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer ein partneriaeth hamdden (Freedom Leisure) oherwydd colledion a chynllun adfer ariannol yn ymwneud â phandemig COVID-19.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn hysbysu'r Cabinet am gynnydd mewn costau ynni presennol ac yn y dyfodol a'r opsiwn o fuddsoddiadau gwario i arbed i liniaru costau cynyddol ar draws y contract Freedom Leisure.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo estyniad i ryddhad ariannol Freedom Leisure tan 31 Mawrth 2023 i gynnwys y cyngor yn gwarantu diffyg gweithredol o hyd at £800,000, yn ogystal â thalu'r ffi reoli fisol gontractiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023, gyda'r holl daliadau rhyddhad i'w cysoni dan ymagwedd agored.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd gytuno ar unrhyw newidiadau i fanyleb gwasanaeth, yr amodau a thelerau sydd ynghlwm wrth unrhyw gynnig o warantu neu fesurau cymorth eraill gan gynnwys awdurdod i amrywio lefel a chyfnod y rhyddhad ariannol ar yr amod bod cyfanswm yr holl amrywiadau o'r fath o fewn cwmpas y cymeradwyaeth cyllideb ar gyfer rhyddhad ariannol yn argymhelliad 1.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ddechrau unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol i roi unrhyw un o’r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ar waith ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

## 91. Cymorth Ariannol i Bartneriaethau Hamdden 22/23 - Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y lefelau cymorth ariannol yr oedd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer ein partneriaeth hamdden (Pwll Cenedlaethol Cymru) oherwydd colledion a chynllun adfer ariannol yn ymwneud â phandemig COVID-19.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo estyniad i ryddhad ariannol Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (PCCA) i gynnwys y cyngor yn gwarantu diffyg ychwanegol o hyd at £200,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd gytuno ar unrhyw newidiadau i fanyleb gwasanaeth, yr amodau a thelerau sydd ynghlwm wrth unrhyw gynnig o warantu neu fesurau cymorth eraill gan gynnwys awdurdod i amrywio lefel a chyfnod y rhyddhad ariannol ar yr amod bod cyfanswm yr holl amrywiadau o'r

fath o fewn cwmpas y cymeradwyaeth cyllideb ar gyfer rhyddhad ariannol yn argymhelliad 1.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol ddechrau unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol i roi unrhyw un o’r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ar waith ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

**92. Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**93. Cymorth Ariannol i Bartneriaethau Hamdden 22/23 - Freedom Leisure.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y lefelau cymorth ariannol yr oedd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer ein partneriaeth hamdden (Freedom Leisure) oherwydd colledion a chynllun adfer ariannol yn ymwneud â phandemig COVID-19. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn hysbysu'r Cabinet am gynnydd mewn costau ynni presennol ac yn y dyfodol a'r opsiwn o fuddsoddiadau gwario i arbed i liniaru costau cynyddol ar draws y contract Freedom Leisure.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.40 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Tachwedd 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 22 Tachwedd 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 Tachwedd 2022 |